# Mott MacDonald - Hysbysiad preifatrwydd pobl

Os ydych yn gyflogai (amser llawn neu ran-amser), yn weithiwr dros dro, yn brentis, yn hyfforddai, yn cymryd rhan mewn profiad gwaith, neu'n intern sy'n gweithio i un o'r endidau sy'n rhan o Mott MacDonald, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn eich helpu i ddeall pa wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu, pam mae ei hangen arnom, sut rydym yn ei defnyddio, gyda phwy rydym yn ei rhannu, a'r hawliau sydd gennych drosti.

Mewn rhai lleoliadau, efallai y bydd gwahaniaethau yn y ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol oherwydd gofynion cyfreithiol lleol neu oherwydd y ffordd y mae Mott MacDonald yn gweithredu. Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn hysbysiad preifatrwydd atodol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cyd-fynd â'n polisïau Grŵp ac Ein Cod. Rydym wedi penodi Pennaeth Grŵp ar breifatrwydd a diogelu data, James Alexander, i fonitro ein cydymffurfiaeth â chyfreithiau preifatrwydd a diogelu data.

Cynnwys :


01. Gwybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu

02. Sut rydym yn casglu'ch gwybodaeth bersonol

03. Gwybodaeth am unigolion eraill

04. Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

05. Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol

06. Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

07. Am ba mor hir rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol

08. Eich dewisiadau a'ch hawliau preifatrwydd

09. Eich hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl

10. Cysylltu â ni

## Gwybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu

Cynnwys

Tra byddwch yn gweithio i ni (ac ar ôl i'r berthynas honno ddod i ben), efallai y bydd angen i ni gasglu, storio, cael mynediad at, dadansoddi, rhannu neu ddefnyddio mewn rhyw ffordd arall y mathau canlynol o wybodaeth bersonol:

**Gwybodaeth adnabod bersonol:** enw llawn, teitl, teitl swydd, rhif gweithiwr, dyddiad geni, cenedligrwydd, statws priodasol/partneriaeth sifil, a statws milwrol/cyn-filwr.

**Manylion cyswllt:** cyfeiriadau e-bost gwaith/personol, rhifau ffôn, cyfeiriadau post, perthynas agosaf a gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng.

**Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes:** dyddiadau dechrau a gorffen, manylion CV a llythyr eglurhaol, cymwysterau a thrawsgrifiadau addysgol, cymwysterau ac ardystiadau proffesiynol, nodiadau cyfweliad, hanes gwaith, geirdaon cyflogaeth a geirdaon personol, oriau gwaith, cyflog, pensiwn a buddion, presenoldeb, gwyliau blynyddol, cofnodion hyfforddiant, aelodaeth o gyrff proffesiynol, ac adolygiadau ac adborth perfformiad.

**Gwybodaeth am deithio a lleoliad:** lleoliad(au) gwaith, statws mewnfudo, gwybodaeth am fisa a theithio, man gwaith, dewisiadau fel teithiwr, data asesu risg diogelwch teithio, data cardiau adeiladau neu gofnodion llyfrau ymwelwyr a gofnodir wrth fynd i mewn i'n hadeiladau neu wrth eu gadael.

**Gwybodaeth o ran gyrru:** (lle bo hynny'n berthnasol ac yn angenrheidiol) manylion cerbydau, trwydded yrru, troseddau traffig a gwybodaeth am ddamweiniau (er enghraifft, os wrth ddefnyddio cerbyd cwmni), defnydd o gardiau tanwydd, a gwybodaeth am yswiriant.

**Gwybodaeth ar ffurf sain/gweledol:** delweddau camera a/neu wybodaeth arall a gafwyd drwy ddulliau electronig megis cofnodion mynediad i adeiladau, data archebu sedd/desg, recordiadau ar ffurf fideo a sain mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, ffotograffau a dynnwyd mewn digwyddiadau neu a ddefnyddiwyd ar broffiliau, mewn cyfryngau digidol neu ddeunyddiau hyrwyddo, delweddau a dynnwyd gan gamerâu diogelwch ar ein safle.

**Defnydd o systemau TG a chyfathrebu digidol:** gwybodaeth am eich defnydd o'n systemau TG a chyfathrebu digidol gan gynnwys logiau mynediad defnyddwyr a dadansoddiad o ddefnydd, gwybodaeth am gadw a defnyddio amser, hanes porwr gwe, cyfeiriad protocol rhyngrwyd (IP), lleoliad gweithio, a chynnwys negeseuon e-bost a negeseuon gwib. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein gofynion o ran monitro gweithlu a'n gofynion o ran defnydd derbyniol yn STEP.

Mae'n bosibl y bydd angen i ni brosesu gwybodaeth bersonol arbennig o sensitif amdanoch at ddibenion penodol a chyfyngedig, ond byddwn yn gwneud hynny dim ond os yw'r gyfraith yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol. Os oes angen i ni gael eich cydsyniad penodol a gwybodus cyn prosesu eich gwybodaeth bersonol sensitif, bydd rhagor o fanylion am beth yw'r bwriad o ran sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio a'i thrin yn cael ei rhoi i chi adeg casglu'r wybodaeth.

Mae gwybodaeth bersonol sensitif yn cael ei thrin yn ofalus iawn ac mae mynediad at yr wybodaeth yn cael ei gyfyngu a'i reoli'n llym. At ddibenion yr hysbysiad preifatrwydd hwn, mae'n cynnwys:

**Dynodwyr a rhoddir gan y Llywodraeth:** (pan fo angen a phan mae'r gyfraith naill ai yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol) manylion pasbort, manylion cerdyn adnabod cenedlaethol, manylion trwydded yrru, rhif yswiriant gwladol, a rhif nawdd cymdeithasol/yswiriant.

**Gwybodaeth ariannol:** manylion cyfrif banc, manylion cerdyn talu, gwybodaeth am gyflog a bonws, manylion cyfranddaliadau a difidend cyfranddaliadau, cyfraniadau pensiwn, yswiriant iechyd a thaliadau/didyniadau buddion eraill gweithwyr, manylion taliadau treth a nawdd cymdeithasol.

**Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio:** geirdaon cyflogaeth, gwiriadau addysg, a (pan fo angen a lle caniateir gan y gyfraith) gwybodaeth am euogfarnau troseddol a/neu droseddau honedig, canlyniad gwirio trwyddedau gyrru a chywirdeb ariannol, canlyniadau profion cyffuriau ac alcohol, a chanlyniad fetio diogelwch cenedlaethol.

**Gwybodaeth iechyd a biometrig:** manylion o addasiadau rhesymol a gofynion hygyrchedd (gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â'ch symudedd, eich golwg neu'ch clyw), cyflwr/cyflyrau iechyd, absenoldeb salwch (gan gynnwys lwfans absenoldeb a'r defnydd ohono), iechyd galwedigaethol ac adroddiadau meddygol eraill, data asesu risg iechyd teithio, gwybodaeth am lesiant, olion bysedd, a sganiau wyneb.

**Gwybodaeth am gynhwysiant:** (pan fo angen a phan mae'r gyfraith naill ai yn ei ganiatáu neu'n ei wneud yn ofynnol yn yr awdurdodaeth lle rydych yn byw) tarddiad hiliol/ethnig, credoau crefyddol neu athronyddol, statws anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw biolegol, a hunaniaeth rhywedd. Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i fonitro cynhwysiant y gweithlu a chydraddoldeb cyfleoedd a chanlyniadau. Fe'i defnyddir i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol ac (os oes angen, ar ffurf gyfunol a dadbersonol) at ddibenion adrodd.

## Sut rydym yn casglu'ch gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol drwy gydol yr amser rydych yn ei dreulio'n gweithio i ni. Fel arfer, bydd yn cael ei chasglu'n uniongyrchol gennych chi, ac ar rai adegau byddwn yn cael eich gwybodaeth bersonol gan drydydd partïon.

**Systemau cynefino a rheoli pobl:** byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol yn ystod y broses gynefino (er enghraifft, casglu manylion eich cyfrif banc er mwyn i ni allu talu eich cyflog) a thrwy gydol eich cyflogaeth gyda Mott MacDonald.

**Systemau TG a chyfathrebu digidol:** byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn defnyddio systemau TG a chyfathrebu digidol mewnol (er enghraifft, negeseuon sy'n cael eu hanfon neu eu derbyn drwy eich cyfrif e-bost Mott MacDonald); neu systemau TG a chyfathrebu digidol allanol sy'n anfon neu'n trosglwyddo data drwy seilwaith ein rhwydwaith TG. Mae'n bosibl y bydd eich gwybodaeth bersonol hefyd yn cael ei chynnwys mewn data o systemau trydydd parti rydych yn eu defnyddio i wneud eich gwaith os bydd angen i ni archwilio/monitro risgiau seiberddiogelwch neu weithgarwch defnyddwyr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein gofynion o ran monitro gweithlu a'n gofynion o ran defnydd derbyniol yn STEP.

**Digwyddiadau a chynadleddau wyneb yn wyneb:** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn mynd i ddigwyddiad neu gynhadledd sy'n cael ei chynnal gan Mott MacDonald neu drydydd parti arall rydym wedi ffurfio partneriaeth â nhw (er enghraifft, tynnu eich llun i hyrwyddo'r digwyddiad).

**Systemau gwneud cais ar-lein am swydd a chyfweliadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda:** rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn gwneud cais am rôl wahanol yn Mott MacDonald gan ddefnyddio ein gwefan gyrfaoedd mewnol a'n system recriwtio. Rydym hefyd yn casglu eich gwybodaeth bersonol yn ystod unrhyw gyfweliadau a gynhelir wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gynhadledd fideo.

**Trydydd partïon:** mae trydydd partïon yn rhoi eich gwybodaeth bersonol i ni drwy gydol eich cyflogaeth, gall hyn gynnwys:

- Unigolion/sefydliadau sydd wedi cytuno i ddarparu geirdaon personol neu eirdaon gyflogaeth (er enghraifft, i gadarnhau eich hanes gwaith neu i ddarparu gwybodaeth am eich perfformiad yn y gorffennol).
- Asiantaethau neu adrannau'r llywodraeth (er enghraifft, i roi gwybodaeth am dreth a nawdd cymdeithasol/yswiriant i ni).
- Sefydliadau addysgol (megis prifysgolion a cholegau) a chyrff proffesiynol yr ydych yn aelod ohonynt (er enghraifft, i wirio cymwysterau ac ardystiadau).
- Darparwyr gwasanaethau trydydd parti rydym yn eu defnyddio i gynnal sgrinio cefndirol a fetio, sgrinio meddygol, profion a gwerthusiadau, i greu, dosbarthu a dadansoddi canlyniadau arolygon cyflogaeth, prosesu ceisiadau am fisa a thrwyddedau gwaith, prosesu trafodion cyflogres, a chadarnhau trefniadau teithio a llety.

## Gwybodaeth am unigolion eraill

Cynnwys

Mae'n bosibl y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol gennych am unigolion sydd â chysylltiad agos â chi megis eich priod/partner, eich plant, neu aelodau eraill o'r teulu. Er enghraifft, os yw Mott MacDonald yn darparu buddion yswiriant/meddygol iddynt neu'n helpu eich teulu i adleoli i ddinas neu wlad newydd tra byddwch yn gweithio i ni.

Os oes gennych gyflwr iechyd parhaus a/neu os ydych yn cael eich trin â meddyginiaeth sy'n effeithio ar eich gwaith, mae'n bosibl y bydd angen i ni gael gwybodaeth gyswllt ar gyfer eich meddyg neu'ch darparwr gofal iechyd.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth bersonol megis enw a manylion cyswllt eich perthynas agosaf, buddiolwyr pensiwn/yswiriant enwebedig, a chysylltiadau mewn argyfwng.

Mewn rhai awdurdodaethau, gall oedolion ifanc ar brofiad gwaith neu sy'n ymgymryd ag interniaeth/prentisiaeth gyda Mott MacDonald, gael eu hystyried yn bobl ifanc dan oed nad ydynt yn gallu ymrwymo i gytundebau cyfreithiol na rhoi cydsyniad dilys i brosesu eu gwybodaeth bersonol. Yn y sefyllfa honno, ac yn amodol ar eu cytundeb, efallai y bydd angen i chi roi gwybodaeth bersonol i ni am riant neu ofalwr/gwarcheidwad cyfreithiol.

Yn yr holl sefyllfaoedd hyn, oherwydd nad oes gennym berthynas uniongyrchol â'r unigolion hyn, rydym yn dibynnu arnoch i roi gwybod i'r unigolyn dan sylw bod angen i chi ddarparu ei wybodaeth bersonol i ni a chael ei ganiatâd i chi ei rhannu â ni. Tra bydd gwybodaeth bersonol yr unigolyn yn ein meddiant, bydd yn ddarostyngedig i'r un mesurau diogelu a gofynion cadarn o ran sut y bydd yn cael ei thrin â'ch gwybodaeth bersonol chi eich hun.

## Sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Mott MacDonald sy'n gyfrifol am benderfynu sut rydym yn casglu, yn cael mynediad at, yn dadansoddi neu fel arall yn prosesu gwybodaeth bersonol am ein pobl. Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch yn bennaf er mwyn rheoli ein perthynas â chi, rhoi mynediad i chi at yr offer a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnoch i wneud eich gwaith, darparu amrywiaeth o fuddion i chi, a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch. Mewn rhai awdurdodaethau, gall y cyfiawnhad cyfreithiol y gallwn ddibynnu arno i brosesu eich gwybodaeth bersonol fod ychydig yn wahanol i'r rhai a amlinellir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y gwahaniaethau mewn hysbysiad preifatrwydd atodol.

Mae'r dibenion y gallai fod angen i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol ar eu cyfer (a'r categorïau o wybodaeth bersonol dan sylw) yn cynnwys:

**Rheoli ein pobl**

- Cwblhau'r broses gynefino ar gyfer aelodau newydd o'n gweithlu: trefnu mynediad at offer, systemau a chyfleusterau; sicrhau ein bod yn gallu cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Asesu a rheoli perfformiad gwaith: cadw golwg ar eich adolygiadau cyfnod prawf; gwerthuso eich presenoldeb, eich absenoldeb a'ch prydlondeb; gwerthuso cynnydd yn erbyn nodau a gweithgareddau y cytunwyd arnynt gyda'ch rheolwr llinell; cefnogi eich datblygiad personol a phroffesiynol; gwerthuso eich cymhwysedd ar gyfer dyrchafiadau a dyfarniadau cyflog; cynnal adolygiadau cyflog a graddio.
- Cyfathrebu â chi: darparu gwybodaeth i chi sy'n gysylltiedig â gwaith, ymateb i'ch cwestiynau, rhoi gwybod i chi am newidiadau i'ch cydnabyddiaeth, eich buddion neu newidiadau i strwythur a pholisïau corfforaethol a chysylltu â chi mewn argyfwng (er enghraifft, trychinebau naturiol).
- Prosesu trafodiadau ariannol: talu eich cyflog, bonysau, taliadau difidend cyfranddaliadau; gweinyddu trethi'r gyflogres, a didyniadau eraill (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn a nawdd cymdeithasol); rheoli eich costau teithio a'ch treuliau (gan gynnwys eich ad-dalu am gostau teithio sy'n gysylltiedig â gwaith).
- Gweinyddu buddion cyflogaeth: darparu yswiriant iechyd, pensiwn, cymorth mudoledd byd-eang, adnoddau llesiant, a hwyluso absenoldeb meddygol (er enghraifft, absenoldeb anabledd tymor byr).
- Cefnogi eich datblygiad personol a phroffesiynol: darparu cyfleoedd i chi o ran addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol (er enghraifft, i fynychu cynadleddau proffesiynol neu gael ardystiad proffesiynol newydd).
- Rheoli teithio sy'n gysylltiedig â gwaith: archebu a rheoli teithio/llety sy'n gysylltiedig â gwaith a chysylltu â chi wrth deithio neu mewn argyfwng.
- Sicrhau gweithle diogel a chynhyrchiol: penderfynu a ydych yn ffit i ymgymryd â thasgau sy'n ofynnol ar gyfer rôl benodol; penderfynu ynghylch cymhwysedd ar gyfer addasiadau rhesymol sy'n gysylltiedig â gwaith (a'u trefnu); darparu offer; rhoi mynediad i chi at systemau mewnol; monitro eich cydymffurfiaeth â'n polisïau a'n gweithdrefnau mewnol; diogelu ein heiddo rhag cael ei ddwyn, ei fandaleiddio a'i ddifrodi.
- Cynnal ymchwiliadau: gwerthuso a datrys materion honedig sy'n ymwneud â gallu, disgyblaeth, cwynion ac ymddygiad; ymchwilio i achosion o dor-diogelwch a'r posibilrwydd o gamddefnyddio asedau, offer a systemau'r cwmni; ac ymchwilio i honiadau o ddwyn, twyll neu weithgarwch troseddol.
- Cynnal ymarferion sgrinio cefndirol a fetio: cynnal gwiriadau cefndirol a fetio (er enghraifft, gwirio geirdaon cyflogaeth a geirdaon addysg, gwirio cywirdeb ariannol, gwirio trwyddedau gyrru a cherbydau modur, gwirio cefndir troseddol, a fetio diogelwch cenedlaethol).

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Gwybodaeth am deithio a lleoliad
- Gwybodaeth o ran gyrru
- Gwybodaeth ar ffurf sain/gweledol
- Defnydd o systemau TG a chyfathrebu digidol
- Gwybodaeth iechyd a biometrig
- Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio
- Gwybodaeth ariannol
- Dynodwyr a rhoddir gan y Llywodraeth
- Gwybodaeth am gynhwysiant
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

**Cyflawni ein rhwymedigaethau cytundebol i'n cleientiaid**

- Bilio ar gyfer yr oriau rydych wedi'u treulio'n gweithio ar aseiniad, a darparu tystiolaeth o hynny, (er enghraifft, rhoi eich enw a chyfradd eich cyflog i'n cleient neu slip cyflog wedi'i olygu), cynnal profion cyffuriau ac alcohol (lle bo angen gan ein cleientiaid am resymau iechyd a diogelwch), a chynnal gwiriadau cefndirol (lle bo angen gan ein cleientiaid am resymau diogelu neu ddiogelwch cenedlaethol).

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Gwybodaeth am deithio a lleoliad
- Gwybodaeth o ran gyrru
- Gwybodaeth iechyd a biometrig
- Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio
- Gwybodaeth ariannol
- Dynodwyr a rhoddir gan y Llywodraeth
- Gwybodaeth am gynhwysiant
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

**Hyrwyddo Mott MacDonald ac ennill busnes newydd**

- Cynnwys aelodau o'n gweithlu mewn deunydd hyrwyddo (ar ein gwefan, ffrydiau cyfryngau cymdeithasol, neu mewn cyfryngau digidol/print eraill) sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau, ein cynnyrch, ein digwyddiadau a'n brand

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol (enw, teitl swydd)
- Gwybodaeth ar ffurf sain/gweledol

**Gwella effeithiolrwydd ein prosesau rheoli pobl**

- Monitro a gwella ein gweithdrefnau adnoddau dynol a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â dyrannu adnoddau dynol
- Ymgymryd ag archwiliadau mewnol ac allanol o'n prosesau rheoli pobl (er enghraifft, asesu polisïau ac arferion Adnoddau Dynol)
- Deall eich profiad gyda Mott MacDonald (er enghraifft, drwy arolygon gweithlu)

- Gwerthuso unrhyw adborth yr ydym yn ei gael gennych (er enghraifft, sut y gallwn wella ein darpariaeth iechyd a buddion neu raglen datblygu gyrfa)

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

**Cynnal recriwtio mewnol ac ailstrwythuro'r gweithlu**

- Asesu eich datblygiad personol a phroffesiynol
- Asesu eich sgiliau, eich cymwysterau a'ch diddordebau yn erbyn cyfleoedd gyrfa Mott MacDonald
- Trefnu a chynnal cyfweliadau ac asesiadau
- Cynnal asesiadau a gwiriadau cefndirol
- Gwirio eich bod yn cael gweithio mewn gwlad neu awdurdodaeth benodol
- Ateb unrhyw gwestiynau am y broses gwneud cais am swydd, cyfweld a dethol
- Cysylltu ag unigolion (er enghraifft, rheolwr llinell presennol neu flaenorol a chynrychiolydd Adnoddau Dynol lleol) i gael gafael ar, neu i drafod, geirdaon cyflogaeth a ddefnyddiwyd i werthuso eich ymddygiad neu berfformiad yn y gorffennol

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Gwybodaeth am deithio a lleoliad
- Gwybodaeth iechyd (er enghraifft, gofynion o ran hygyrchedd)
- Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio
- Dynodwyr a rhoddir gan y Llywodraeth
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

**Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol**

- Datgelu gwybodaeth bersonol i asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau rheoleiddio, neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith (mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â gwyslythyrau a gorchmynion llys)
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau cadw cofnodion ac adrodd
- Dilyn ein hawliau cyfreithiol a'n rhwymedïau
- Sefydlu neu amddiffyn safbwynt cyfreithiol Mott MacDonald
- Rheoli cwynion a hawliadau cyfreithiol
- Bodloni gofynion iechyd a diogelwch yn y gweithle
- Cynnal archwiliadau meddygol a sgrinio iechyd (er enghraifft, yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus)
- Cynnal gwiriadau cofnodion troseddol a gwiriadau trwydded gyrru (yn dibynnu ar gyfraith leol berthnasol, a gofynion penodol y rôl/cleient)
- Gwirio bod eich statws mewnfudo yn caniatáu i chi weithio mewn gwlad neu awdurdodaeth benodol
- Cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau ynghylch cwyno a disgyblu
- Asesu rhwymedigaethau o ran cyfraith cyflogaeth a threth sy'n gysylltiedig â thâl, nawdd cymdeithasol, oriau gwaith a hawl i wyliau blynyddol
- Monitro ac adrodd ar fylchau cyflog o ran rhywedd ac ethnigrwydd (lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith)
- Monitro ac adrodd ar gynhwysiant a chydraddoldeb (lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith)

Mae categorïau o wybodaeth bersonol a ddefnyddir at y diben hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth adnabod bersonol
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth am ddatblygu gyrfa a busnes
- Gwybodaeth am deithio a lleoliad
- Gwybodaeth o ran gyrru
- Gwybodaeth ar ffurf sain/gweledol
- Defnydd o systemau TG a chyfathrebu digidol
- Gwybodaeth iechyd
- Gwybodaeth sgrinio cefndirol a fetio
- Gwybodaeth ariannol
- Dynodwyr a rhoddir gan y Llywodraeth
- Gwybodaeth am gynhwysiant
- Eich adborth, eich barn, eich diddordebau, eich dewisiadau a gwybodaeth arall

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol. Fel arfer, rydym yn dibynnu ar un neu fwy o'r cyfiawnhad cyfreithiol canlynol pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol (casglu, storio, cael mynediad at, dadansoddi, rhannu neu ei defnyddio mewn rhyw ffordd arall):

- Mae'n angenrheidiol i gyflawni'r **rhwymedigaethau cytundebol** rydym wedi ymrwymo iddynt gyda chi

- Mae'n angenrheidiol i gydymffurfio â **rhwymedigaeth gyfreithiol**, er enghraifft i rannu gwybodaeth bersonol ag awdurdodau treth neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith

- Mae'n gyson â'ch **cydsyniad** (lle bo'n berthnasol)

- Mae'n angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon a'n hanghenion busnes (lle caniateir gan y gyfraith), er enghraifft, i filio ein cleientiaid am waith rydych chi wedi'i gwblhau

- Mae'n angenrheidiol i **ddiogelu eich buddiannau** (neu fuddiannau rhywun arall), er enghraifft os bydd argyfwng meddygol neu fygythiad i'ch diogelwch corfforol

- Mae'n angenrheidiol **er budd y cyhoedd**, er enghraifft, er mwyn cynnal olrhain cysylltiadau yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd

Bydd rhai o'r uchod yn gorgyffwrdd, felly mae'n bosibl y bydd nifer o seiliau cyfreithiol gwahanol yn berthnasol ar yr un pryd i gyfiawnhau ein bod yn prosesu elfen benodol o'ch gwybodaeth bersonol.

Mewn rhai lleoliadau, efallai y bydd gwahaniaethau yn y cyfiawnhad cyfreithiol y gellir dibynnu arnynt pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol (oherwydd gofynion cyfreithiol lleol neu'r ffordd y mae Mott MacDonald yn gweithredu yn yr awdurdodaeth honno). Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi mewn hysbysiad preifatrwydd atodol.

## Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Os yw'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny, efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â'r canlynol:

**Gwahanol endidau Mott MacDonald** sy'n ymwneud â rheoli ein perthynas â chi a rhedeg ein busnes.

**Ein darparwyr a'n cyflenwyr gwasanaeth** sy'n cefnogi ein gweithgareddau rheoli pobl a gweinyddu busnes, megis archebu teithio a llety, darparu cymorth o ran hyfforddiant a datblygu, darparu gwasanaethau a chymorth iechyd galwedigaethol, darparu buddion i weithwyr megis yswiriant meddygol preifat, pensiynau yn y gweithle a chymorth llesiant, prosesu trafodion cyflogres, cynnal sgrinio cefndirol a fetio, cefnogi ein seilwaith a'n systemau technoleg neu reoli mynediad i'n safleoedd a'n cyfleusterau gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys Sterling (sgrinio a fetio'r gweithlu), Amex Global Business Travel (rheoli teithio), Microsoft (gwasanaethau cyfathrebu, gwasanaethau rhyngrwyd a chyfrifiadura cwmwl) a SAP (systemau rheoli pobl a chynefino).

**Ein cleientiaid a'n partneriaid cyflenwi** at ddibenion bidio, cyflawni prosiectau, mynediad (at safleoedd a systemau TG), bilio, anfonebu ac archwilio; gall hyn gynnwys eich enw, lleoliad gwaith (gwlad), rôl swydd a chymwysterau proffesiynol, CV, eich cyflog neu gyfradd fesul awr/dyddiol gyfatebol, slip cyflog wedi'i olygu, y gweithgareddau a wnaethoch yn ystod aseiniad, yr oriau a dreuliwyd ar dasgau penodol. Lle bo angen, efallai y bydd gofyn i ni hefyd ddarparu ystod gyfyngedig o wybodaeth am wiriadau cefndir, cyflyrau meddygol a llesiant fel rhan o'u prosesau sgrinio neu iechyd a diogelwch.

**Ein cynghorwyr cyfreithiol neu broffesiynol eraill allano**l am gyngor ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth, asesu opsiynau fisa a thrwydded waith, at ddibenion archwilio (er enghraifft, i sicrhau cydymffurfio â threth a gwella effeithlonrwydd), i bennu rhwymedigaethau treth, a (lle bo angen) i ymchwilio, mynd ar drywydd neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol/yswiriant (neu hawliadau eraill o natur debyg).

**Trosglwyddeion busnes** os bydd ailstrwythuro corfforaethol. Er enghraifft, os byddwn yn ymrwymo, neu'n bwriadu ymrwymo, i drafodiad sy'n newid strwythur ein busnes, megis uno, caffael, gwerthu, menter ar y cyd, cyfnerthu, neu waredu'r cyfan neu unrhyw ran o'n busnes neu ein hasedau mewn ffordd arall.

Awdurdodau rheoleiddio neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith lle bo angen i hwyluso'r gwaith o atal, canfod ac ymchwilio i weithgarwch troseddol a amheuir, os oes angen i ni gydymffurfio â chais swyddogol am wybodaeth (mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â gwysion a gorchmynion llys) neu i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol eraill (er enghraifft, rhoi gwybod am ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â gwaith i reoleiddwyr, asiantaethau a gweinyddwyr iechyd a diogelwch).

Pan fydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol â'r trydydd partïon hyn, rydym yn defnyddio cyfuniad o fesurau cytundebol, ffisegol a thechnegol i gadw'r wybodaeth hon ddiogel.

Er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol sy'n cael ei throsglwyddo'n rhyngwladol, rydym yn sicrhau bod mesurau diogelu digonol a chymesur ar waith a bod eich hawliau preifatrwydd a diogelu data'n cael eu diogelu. Y rheswm am hyn yw y gallai fod gennych lai o hawliau dan gyfreithiau lleol mewn rhai gwledydd nag sydd gennych yn eich gwlad breswyl.

Bydd y mesurau diogelu hynny fel arfer yn cynnwys amgryptio data, caniatâd mynediad sy'n seiliedig ar rôl, a chytundebau cyfreithiol sy'n hwyluso trosglwyddo gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ar draws ffiniau. Cyfeiriwch at ein polisïau Grŵp i gael rhagor o wybodaeth.

Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth bersonol i drydydd parti at unrhyw ddiben.

## Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Rydym yn gweithio'n galed i gynnal ac i wella mesurau diogelwch sy'n atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu rhag i rywun cael mynediad ati heb awdurdod, ei newid neu ei datgelu. Rydym yn cyfyngu mynediad at wybodaeth bersonol i unigolion a sefydliadau sydd â hawl cyfreithiol i gael mynediad (er enghraifft, awdurdodau rheoleiddio neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith), neu sydd ag angen busnes dilys i wybod (er enghraifft, rheolwyr llinell, gweithwyr proffesiynol ym maes Adnoddau Dynol a darparwyr gwasanaethau). Bydd ein darparwyr a'n cyflenwyr gwasanaeth yn prosesu gwybodaeth bersonol yn unol â'n cyfarwyddiadau ni yn unig, ac rydym yn sicrhau bod pob trydydd parti yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol.

Mae'n ofynnol i bawb sy'n gweithio i Mott MacDonald, y gallai fod gofyn iddynt gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol wrth gyflawni eu dyletswyddau, gwblhau hyfforddiant preifatrwydd a diogelu data, a hyfforddiant diogelwch gwybodaeth, yn flynyddol.

Gweler hefyd ein polisïau Grŵp i gael rhagor o wybodaeth.

# Am ba mor hir rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol

Cynnwys

Dim ond am gyn hired ag sy'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion a nodir yn y polisi preifatrwydd hwn y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu ein bod yn cadw eich gwybodaeth bersonol drwy gydol yr amser rydych yn ei dreulio'n gweithio i ni, ac yna am gyfnod cyfyngedig ar ôl hynny. Wrth bennu'r cyfnodau cadw hynny, rydym yn ystyried y canlynol:

- Am ba hyd y mae angen i ni ei chadw i weithredu ein busnes a rheoli ein perthynas â chi? Er enghraifft, mae angen i ni gadw eich gwybodaeth bersonol er mwyn talu eich cyflog bob mis ac i weinyddu eich yswiriant iechyd, pensiwn a buddion eraill.
- Am ba hyd sydd angen i ni gadw'r wybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol? Er enghraifft: tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer archwiliad treth, archwiliad mewnfudo neu archwiliad ariannol allanol; i gydymffurfio â darpariaeth benodol mewn cyfraith benodol; neu i ymateb i hawliad cyfreithiol neu ymchwiliad rheoleiddiol.
- A oes angen i ni ei chadw at ddiben cyfreithlon arall, er enghraifft, i atal niwed i unigolion neu i'n busnes; neu i ddiogelu ein hawliau cyfreithiol, ein heiddo neu ein hasedau.

Mewn rhai achosion, ac am resymau penodol, byddwn yn cadw gwybodaeth am gyfnod estynedig. Pan fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei dileu neu ei dinistrio, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei gwaredu'n ddiogel ac yn barhaol yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol lleol.

## Eich dewisiadau a'ch hawliau preifatrwydd

Cynnwys

Rydym yn parchu eich hawliau dros eich gwybodaeth bersonol. Fel un o'n pobl, mae gennych yr hawliau canlynol dros eich gwybodaeth bersonol:

- **Yr hawl i gael mynediad** at eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol ac i wirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
- **Yr hawl i gywiro** unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddiwygio neu ddiweddaru unrhyw wybodaeth bersonol sy'n anghyflawn neu'n anghywir.
- **Yr hawl i ofyn am ddileu** gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu neu gael gwared â gwybodaeth bersonol lle nad oes rheswm dilys dros barhau i'w phrosesu.
- **Yr hawl i wrthwynebu** i'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol os ydych yn credu nad oes gennym reswm dilys dros ei phrosesu a'ch bod am i ni roi'r gorau i'w phrosesu.
- **Yr hawl i gyfyngu** ar y defnydd pellach o wybodaeth bersonol amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni gyfyngu ar, neu atal, y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol (er enghraifft, os ydych am i ni gadarnhau ei chywirdeb neu'r rheswm pam ein bod yn ei phrosesu).
- **Yr hawl i drosglwyddo** gwybodaeth bersonol amdanoch i barti arall. Gallwch ofyn i ni anfon/portio eich gwybodaeth bersonol, megis eich cofnod gwaith, slipiau cyflog neu wybodaeth bersonol arall i sefydliad arall, megis darpar gyflogwr.

Gallwch chi neu enwebai awdurdodedig arfer yr hawliau hyn ar unrhyw adeg drwy gyflwyno cais drwy ein ffurflen cais am hawliau unigolyn, drwy gysylltu â privacy@mottmac.com neu drwy gysylltu â'ch partner busnes Adnoddau Dynol. Os ydych yn byw yng Nghaliffornia, gallwch hefyd gyflwyno cais drwy gysylltu â ni yn 1-800-832-3272.

Os ydych wedi gofyn i rywun arall arfer eich hawliau ar eich rhan ac nad yw'r enwebai hwnnw'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig o'i awdurdod i wneud hynny (er enghraifft, atwrneiaeth neu lythyr awdurdodi wedi'i lofnodi gennych chi), ni fyddwn yn gallu prosesu na gweithredu ei gais.

Os byddwch yn dewis arfer unrhyw rai o'ch hawliau a nodir uchod, rydym wedi ymrwymo i'ch trin yn deg a sicrhau triniaeth anwahaniaethol. Byddwn yn ymateb i chi o fewn unrhyw ddyddiad cau statudol perthnasol (er enghraifft, yn y DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd byddwn yn ymateb i chi cyn pen mis ar ôl y dyddiad y bydd eich cais yn dod i law; ac yng Nghaliffornia byddwn yn ymateb i chi cyn pen pedwar deg pum diwrnod ar ôl y dyddiad y bydd eich cais yn dod i law). Os oes rheswm cyfreithlon dros ymestyn y dyddiad cau hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl.

Sylwch hefyd y gallai hawliau a buddiannau pobl eraill neu rwymedigaeth gyfreithiol (er enghraifft, lle nad ydym yn gallu dileu eich holl wybodaeth bersonol oherwydd ein rhwymedigaethau rheoleiddiol) gyfyngu ar i ba raddau y gallwch arfer eich hawliau. Os felly, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bo modd.

# Eich hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl

Cynnwys

Os ydych wedi rhoi eich cydsyniad i ni gasglu a phrosesu eich gwybodaeth bersonol at ddiben penodol, ac rydym yn dibynnu ar y cydsyniad hwnnw i gyfiawnhau ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol at y diben hwnnw, efallai y bydd gennych hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl.

I dynnu eich cydsyniad yn ôl, cysylltwch â'r tîm Adnoddau Dynol ar gyfer eich uned neu'ch rhanbarth yn y lle cyntaf. Ar ôl iddynt gael gwybod eich bod yn tynnu eich cydsyniad yn ôl, ni fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at y diben yr oeddech wedi cytuno iddo yn wreiddiol, oni bai fod y gyfraith yn mynnu neu'n caniatáu i ni wneud hynny a bod gennym reswm dilys dros wneud hynny.

Os byddwch yn dewis tynnu eich cydsyniad yn ôl ar gyfer rhai gweithgareddau prosesu, gallai hyn olygu nad ydym yn gallu darparu rhai amwynderau neu fuddion, ac mae'n bosibl y cewch eich eithrio o rai gweithgareddau (tra byddwch yn gweithio i ni). Bydd canlyniadau tynnu eich cydsyniad yn ôl ar gyfer gweithgaredd prosesu penodol yn cael eu cyfleu i chi pan fyddwch yn rhoi gwybod i ni yr hoffech dynnu eich cydsyniad yn ôl.

## Cysylltu â ni

Cynnwys

Os oes gennych bryderon am y ffordd mae Mott MacDonald wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, neu os ydych eisiau arfer eich hawliau preifatrwydd, llenwch ein ffurflen cais am hawliau unigolyn neu cysylltwch â privacy@mottmac.com. Os ydych wedi'ch lleoli yn Singapore, gallwch hefyd gysylltu â ni drwy ffonio 6293 1900.

Os ydych yn anhapus â'n hymateb ar ôl mynegi pryder neu gyflwyno cais am hawliau gwybodaeth, gallwch gofrestru cwyn yn uniongyrchol gyda'r rheoleiddiwr preifatrwydd a diogelu data yn y wlad, y wladwriaeth neu'r dalaith lle rydych wedi'ch lleoli. Os nad ydych yn siŵr pa awdurdod rheoleiddio sy'n gorfodi cydymffurfiad o ran preifatrwydd a diogelu data yn eich awdurdodaeth, cysylltwch â privacy@mottmac.com i ofyn am y manylion cyswllt perthnasol.

## Newidiadau i’r hysbysiad preifatrwydd hwn

Cynnwys

Cyhoeddwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ym mis Mawrth 2026 ac mae’n bosibl y bydd angen ei ddiweddaru oherwydd newidiadau i’n systemau a’n prosesau neu i’r gyfraith, felly rydym yn argymell eich bod yn adolygu’r hysbysiad hwn o bryd i’w gilydd. Os bydd newidiadau sylweddol yn effeithio ar eich hawliau preifatrwydd, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi a chymryd unrhyw gamau eraill sy’n ofynnol gan y gyfraith berthnasol.

**Trigolion Califfornia**

Os ydych yn un o drigolion Talaith Califfornia, darllenwch ein Hysbysiad preifatrwydd pobl atodol Califfornia i ddysgu mwy am sut rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol a’ch hawliau preifatrwydd fel un o drigolion Califfornia.